# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 19EG MAWRTH, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

**(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 11 Mawrth 2024)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Eryl Jones-Williams
Louise Hughes
Rob Triggs

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Robert Williams | Cyngor Tref Abermaw |
| Dr John Smith | Clwb Hwylio Meirionnydd |
| John Johnson | Cymdeithas Pysgota Bae Ceredigion |
| Mark James | Cymdeithas y Bad Achub |
| Martin Parouty | Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw |
| Ashley Field | Ras Hwylio y Tri Copa |
| Robert Aeron Williams | Grŵp Gwella Cyrchfannau Abermaw |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Matthew Harris | |
| Ian Sadler | |
| Cynghorydd Brian Woolley | |
| Peter Appleton | |
| Stephen Tudor | Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Pwllheli |
| Desmond George | Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Aberdyfi |
| June Jones | Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog |

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 4 - 9

I gadarnhau cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 24ain Hydref, 2023.

**4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 10 - 16

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

I ystyried materion ar gais yr Aelodau.

**6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 22ain Hydref, 2024.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 24 HYDREF, 2023

**Presenoldeb:**
**Aelodau:**
Cynghorydd Rob Triggs (Cadeirydd), Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Is-Gadeirydd), Ashley Field (Ras Hwylio y Tri Copa), Mark James (Cymdeithas y Bad Achub) a’r Cynghorydd Robert C Williams (Cyngor Tref Abermaw)

**Swyddogion:**
Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Daniel A Cartwright (Harbwrfeistr Abermaw), Arthur F Jones (Uwch Swyddog Harbyrau) Einir Rh Davies a Ffion E Evans (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth) ac E Mererid Watt (Cyfieithydd)

**Hefyd yn Bresennol:** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Economi a Chymuned) Y Cynghorydd June Jones (Sylwedydd Pwyllgor Harbwr Ymgynghorol Porthmadog)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Rob Triggs yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2023/24.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2023/24.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Robert Aeron Williams

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol ond hysbysodd y Cadeirydd fod ei fab, Kane Triggs, yn Gymhorthydd Harbwr Abermaw, er gwybodaeth.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar 28 Mawrth, 2023 fel rhai cywir.

## 6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR
**Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau a’r Harbwrfeistr**

Croesawyd pawb i’r cyfarfod, gan ddiolch i’r Aelod Cabinet am allu bod yn bresennol hefyd, a cychwynnwyd gydag Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau

**Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod**
Cadarnhawyd bod 71 cwch wedi eu cofrestru yn 2023 o'i gymharu â 64 yn 2022, a'i bod yn braf adrodd ar y cynnydd. Tybiwyd mai y costau is sydd yn denu cwsmeriaid i Harbwr Abermaw a gobeithio y bydd y ffigwr yn hyd yn oed uwch flwyddyn nesaf a'r tueddiad yn parhau. Adroddwyd bod y rhan fwyaf wedi eu cofrestru ar-lein, sef 1,269 o gychod pŵer a 1,240 o gychod dŵr personol.

**Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd**
Cadarnhawyd bod Harbwr Abermaw yn cydymffurfio a'r Gofynion, a petai gan unrhyw un sylwadau ar y Côd, bod modd iddynt hysbysu'r Uwch Swyddog Harbyrau.

**Materion Staffio**
Cadarnhawyd nad oedd unrhyw newid wedi bod yn y sefyllfa staffio, ond bod yr Harbwrfeistr a'r Harbwrfeistr Cynorthwyol wedi bod yn helpu yn Harbyrau Porthmadog ac Aberdyfi. Cymerwyd y cyfle hefyd i ddiolch i'r staff tymhorol am eu holl waith.

**Materion Ariannol : Sefyllfa Ariannol Harbwr Abermaw**
Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol ar y gyllideb gan grynhoi o dan y prif benawdau. Adroddodd bod y wybodaeth wedi ei selio ar gyfarfod gyda y Swyddogion Cyllid yn ystod mis Awst, oedd yn dangos gwir-wariant am bum mis ac yna yn proffwydo gwariant ar gyfer Medi 2023 i Fawrth 2024. Adroddodd ei fod yn anodd iawn proffwydo a bod materion megis gaeaf trwm am effeithio ar y ffigyrau.

Gweithwyr - £65k - gorwariant £800 oherwydd costau goramser gan fod staff wedi bod yn rhoi cymorth ym Mhorthmadog ac Aberdyfi. Nid yw'r gyllideb hon yn adlewyrchu costau staff tymhorol
Eiddo - £12k - gorwariant £650 - oherwydd y byrddau picnic ar arwyddion, a chadarnhawyd bod hyn i'w ddisgwyl
Trafnidiaeth - £1000 - tan wariant £700 – mae'r ffigwr yn cynnwys tanwydd/petrol i'r cwch (ond ddim yn cynnwys costau cynnal a chadw). Nodwyd bod y ffigwr oherwydd bod y cwch wedi bod allan llai oherwydd yr haf gwael a bod y peiriannau newydd yn gwneud y gwaith yn fwy economaidd.
Gwasanaethau a Chyflenwadau - £11k - gorwariant o £6k - mae hyn yn cynnwys y cadwyni, shaclau, goleuadau, ynghyd a phris y cymhorthydd mordwyo newydd (oedd dros £3k). Adroddwyd eu bod wedi gorfod talu i gontractwyr osod y bwi ynghyd a chostau gwasanaethu peiriannau'r cwch.

O ran yr Incwm, adroddwyd ei fod yn dod o'r ffioedd angori, ffioedd aros dros dro, a'r maes parcio ac mai y targed oedd £38,500 ond eu bod yn proffwydo £40,500. Cyfeiriwyd at y gwaith ar y Bont a'r incwm gan Gwmni Network Rail, ond nad oedd llawer mwy o incwm. Cadarnhawyd, heb yr incwm Network Rail, na fyddai y targed wedi ei gyrraedd.

O ran y ffigyrau penodol nodwyd £50,924 o wariant, £55,524 wedi ei broffwydo a gorwariant o £4,601, a'r ymdeimlad oedd nad oedd hyn yn peri pryder, er y byddai yn debygol o godi ychydig.

Nododd y Pwyllgor ei bod yn braf gweld y ffigyrau yn enwedig o wybod ei bod wedi bod yn dymor anodd. Adroddwyd bod adroddiadau da yn cael eu rhoi am y staff.

Nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol nad oedd anfoneb Network Rail wedi ei chyflwyno eto, ond y byddai yn cael ei chyflwyno cyn diwedd y flwyddyn. Ategodd yntau y sylwadau am y staff a'i gwaith da, gan nodi bod yr Harbwr yn edrych yn dda. Nododd ei bod yn adeg anodd, a bod angen rhoi pob clod am gyrraedd y targed incwm.

O ran y cynnydd o 11% yn nifer y cwsmeriaid, nodwyd efallai bod hyn o ganlyniad i sefyllfa Harbyrau Felinheli ac Aberystwyth a bod Harbwr Abermaw fymryn yn rhatach na nifer o Harbyrau eraill.

Ategwyd y diolch gan yr Aelod Cabinet hefyd.

**ADRODDIAD YR HARBWRFEISTR**

**Materion Mordwyo**
Gosodwyd bwi tramwyo wedi'i adnewyddu a chynhaliwyd arolwg o'r sianel i fonitro'r banciau tywod. Adroddwyd bod angen cymhorthydd mordwyo Rhif 10 newydd a bod y gwaith monitro yn parhau.

Cadarnhawyd bod y Rhybudd i Forwyr am y gwaith ar y Bont yn parhau i fod mewn lle ar gyfer morwyr hyd nes canol mis Rhagfyr

Mae bwiau rhif 1 ac 8 nawr wedi eu goleuo a diolchwyd i Harbwr Porthmadog am gael benthyg y cyfleuster goleuo.

Cadarnhawyd bod yr holl farciau yn eu lle ac yn gweithio.

**Materion Gweithredol**
Adroddodd Harbwrfeistr Abermaw bod yr ymwelwyr erbyn hyn yn gallu defnyddio wal yr Harbwr. Cyfeiriwyd at y 'Powercat' newydd oedd wedi cael dipyn o ddefnydd a'r manteision o gael cwch o'r math, er bod cost o £15,000 wedi bod ynghlwm a hi. Cadarnhawyd bod gwaith monitro a rhifo angorfeydd wedi cymryd lle, ynghyd a buddsoddi yng ngherbyd y gwasanaeth.

Nodwyd bod radio VHF newydd wedi ei brynu ar gyfer y swyddfa, ynghyd a radios llaw. Mae arolygiadau dyddiol a gwaith cynnal a chadw dyddiol o'r bariau a'r llithrfeydd.

Adroddwyd bod marc mordwyo Rhif 2 wedi mynd ar goll yn ystod storm yn gynharach yn y tymor ac nad oedd wedi dod i'r golwg, ac felly roedd rhaid prynu un newydd yn ei le. Yn ychwanegol cafwyd costau gyda chadwyni angorfeydd, ac roedd costau llafur contractwr ynghlwm a hyn.

Adroddwyd bod nifer o deiars tractor wedi eu rhoi i'r Harbwr sydd o gymorth oherwydd nifer o gychod ymwelwyr i'r Harbwr. Nodwyd bod bolardiau wedi eu gosod hefyd i ymdrin â'r diffyg llefydd parcio i weithredwyr masnachol y dŵr.

Yn ystod arolwg diweddar, adroddwyd bod arwydd y morglawdd a'r arwydd yn rhybuddio pobl i beidio â nofio wedi eu trwsio, tra mae meinciau picnic, wedi eu gwneud allan o blastig wedi ei ailgylchu, wedi eu gosod hefyd.

O ran Pont Rheilffordd Abermaw, adroddwyd bod y gwaith yn y camau olaf. Cadarnhawyd bod Rhybudd i Forwyr yn parhau i fod mewn lle a bod yr holl draffig oedd yn mynd o dan y bont wedi eu hatal a'u bod wedi eu symud o'r hen harbwr. O ganlyniad, cadarnhawyd bod lloc yr Harbwr wedi ei dwtio a diolchwyd i bawb am eu cymorth.

Adroddwyd bod Gerddi Orielton wedi tyfu yn wyllt a bod contractwyr wedi gwneud y gwaith clirio yno. O ran y sied, adroddwyd bod asbestos wedi ei ddarganfod ar do'r sied, ond y gobaith oedd y byddai'r gwaith yn cael ei wneud cyn y Nadolig.

Cyfeiriwyd at y loceri siacedi achub bywyd oedd wedi eu darparu gan y gwasanaeth Bad Achub, a diolchwyd yn benodol i Trevor Lewis, gan nodi mai Harbwr Abermaw oedd y cyntaf yng Nghymru i gael cyfleuster o'r math.

Adroddwyd bod ymdrech fawr yn mynd mewn i gynnal digwyddiadau da megis gŵyl gerddoriaeth, y tri chopa, gŵyl fwyd a'r digwyddiad 'motor cross' a chadarnhawyd bod adborth positif wedi ei dderbyn. Atgoffwyd yr Aelodau i hysbysu Swyddfa'r Harbwr am unrhyw ddigwyddiad cyn gynted â phosib.

Gwahoddwyd Aelodau i gynnig sylwadau, ac mewn ymateb nodwyd fel a ganlyn :

Diolchwyd am yr adroddiad ond nodwyd pryder nad oedd llawer o wybodaeth ar gael am y pontwns, a holiwyd tybed fyddai modd cael adroddiad ynglŷn â'r sefyllfa? Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa gan gadarnhau bod y Cyngor Tref yn ceisio cymryd drosodd y Pontwns, gan gadarnhau y dymuniad i'w gadael ar y wal, yn gorffwys ar wely'r môr. Gan fod craen yn yr ardal wythnos nesaf, nodwyd y dymuniad i gymryd mantais o hyn, gan ofyn am ganiatâd i roi'r craen ar y tarmac wrth Adeilad Dora.

O ran y gwaith ar y Bont, adroddwyd bod gwaith gosod y trac yn dilyn cwblhau'r Bont, gyda gwaith pellach ar Draphont Abermaw yn 2024, ond nid oedd cadarnhad wedi ei dderbyn.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Morwrol at y Ddeddf Newydd yn ymwneud a Beiciau Dŵr, ac yn benodol y sustem cofrestru. Adroddodd bod rhai beiciau dŵr yn cael eu lansio o'r meysydd carafanau ac o ganlyniad ei bod yn anodd iawn cadw cofnod ohonynt. Cyfeiriwyd at yr ymchwiliad sydd ar y gweill yn Aberdyfi, gan nodi ei falchder nad oedd unrhyw ddamweiniau difrifol, oedd o bosib oherwydd ymddygiad rhagweithiol staff, a'r cymorth gan staff y traethau. Yn ychwanegol, diolchwyd i staff Abermaw, staff traeth, Swyddogion y Bad Achub a Gwylwyr y Glannau am eu holl waith a'r berthynas dda.

O ran y digwyddiadau oedd wedi cymryd lle, adroddodd y Cadeirydd mai unig bryder yr Heddlu oedd achos o yfed o dan oed yn yr Ŵyl Gerddoriaeth.

Cwestiynwyd y sefyll o ran clirio y tywod ac yn benodol yr argraff a roddwyd bod cynllun i ganiatáu twyni tywod ar y traeth.  Y pryder gyda hyn oedd y byddai sgwteri symudedd yn mynd yn sownd yn y tywod.  Nodwyd, er gwybodaeth, bod cynlluniau i glirio y tywod.

Adroddwyd bod unrhyw drafodaeth ynglŷn â thywod am effeithio yr arfordir i gyd, ac o ganlyniad bod hwn yn eitem fydd o flaen y Pwyllgor Craffu yn Ebrill.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol nad oedd wedi clywed unrhyw son am gynllun i annog tyfu y twyni gan gwestiynu o ble ddaeth y wybodaeth.  Nododd ei fod wedi cyfarfod a'r Harbwrfeistr yr wythnos flaenorol ac roedd y 'bull dozer' yn tynnu tywod o'r wal ac wedi ei glirio erbyn y penwythnos.  Adroddwyd bod trafodaethau ar y gweill gyda YGC a bod bwriad i'w glirio cyn diwedd y flwyddyn, ond nad oedd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol yn ymwybodol o'r Cynllun y cyfeiriwyd ato uchod.  Adroddwyd ymhellach mai rhan o'r Cynllun oedd clirio y tywod ddwywaith, ond ei bod wedi dod yn glir nad oedd hyn yn ddigon.

Ehangwyd ar yr uchod, gan adrodd bod unigolyn wedi mynd i gyfarfod gyda Liz Saville Roberts a Mabon ap Gwynfor, ble rhannwyd map yn dangos y twyni rhwng yr orsaf bad achub a'r cawsai ond  nid oedd neb yn siŵr o ble ddaeth y map?  Adroddwyd fel y byddai ffermwyr, rhai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn, yn arfer glanhau'r afon Sgethin er mwyn cadw y sianel yn agored.  Er bod trafodaeth wedi bod gyda Gweinidog yr Amgylchedd, rhybuddiodd y ffermwyr y byddai problemau gyda'r twyni a'r effaith ar Dalybont, megis llifogydd yn y maes carafanau.  Mae y twyni yn diflannu yn Nhalybont.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i bawb am eu cyfraniadau a nododd bod themâu tebyg yn codi yn y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau eraill.  Awgrymwyd bod cyfle yma i ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru.  Cymerodd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned y cyfle i nodi bod cydweithio rhwng asiantaethau ar brosesau arfordirol, megis prosesau Aberdyfi a Pwllheli.

Yn sgil yr uchod, holiwyd tybed a oes cyfarfod o Gynllun Tywod Bermo wedi ei gynnal yn ddiweddar?  Nid oedd neb yn siŵr ond nodwyd nad oedd unrhyw synnwyr mewn gadael i'r twyni dyfu, yn enwedig o gwmpas ble mae'r orsaf  Bad Achub.  Awgrymwyd efallai y byddai yn syniad ail-gynnull y Grŵp?  Cadarnhawyd y byddai y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned yn ceisio cadarnhau y sefyllfa ac adrodd yn ôl i aelodau y Pwyllgor Ymgynghorol, ac y byddai y Cadeirydd yn trafod gyda Rhidian Morgan, Pennaeth Datblygiad Twristiaeth Llywodraeth Cymru, gan fo esiamplau o draethau eraill yn dirywio, megis Traeth Benar.

Holodd Cynrychiolydd Cyngor Tref Abermaw am drefniadau'r noson tan gwyllt, gan nodi pan gafodd y diweddariad diwethaf bod popeth ar amser ac nad oedd unrhyw bryderon.  Cadarnhawyd y neges oedd wedi dod i law yn cadarnhau na fyddai sgaffald ar y traeth yn y 7-10 diwrnod nesaf.

Cwestiynwyd hefyd y byrddau sydd wedi eu gosod ar hyd y promenâd, a bod eu gosod yno yn drefniant hanesyddol.  Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai yn trafod y mater ymhellach.

Cymerwyd y cyfle i drafod y graffiau oedd yn rhan o Ddashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned gan gadarnhau eu bod yn cydymffurfio 100% gyda gofynion Tŷ'r Drindod.

Cyfeiriwyd at y gwaith o osod codau QR ar arwyddion fel bod modd i bobl rannu eu sylwadau ar yr holiadur bodlonrwydd cwsmer. Nodwyd bydd gwaith mynd drwyddynt maes o law i weld unrhyw themâu, ond ar hyn o bryd nodwyd bod oddeutu 30 wedi eu cwblhau ar gyfer yr Harbyrau, gyda 89% yn nodi fod eu profiad o'r harbwr yn 'dda iawn' neu'n 'dda, gyda nifer yn canmol y staff ond yn nodi'r angen i garthu'r Harbwr.

Nodwyd bod cyfle hefyd i roi barn ar draethau, ac mae 350 wedi cwblhau'r holiadur hyd yma, gyda 75% yn nodi bod y traethau yn gyffredinol yn 'dda iawn' neu 'da', gyda sylwadau yn cael eu gwneud am brysurdeb y traethau.

Tynnwyd sylw penodol bod 2,500 o feiciau dwr wedi eu cofrestru yng Ngwynedd, mewn cymhariaeth a 500 ym Môn a 300 yng Nghonwy.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.

**PENDERFYNWYD**

Nodi a derbyn yr adroddiadau.

## 7. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Dim i'w nodi

## 8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 19eg Mawrth, 2024

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 yp a daeth i ben am 3.10 yp

________________________________________

(Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **19 Mawrth 2024** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a Mawrth 2024, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998.

**2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod.**

2.1 Disgwylir i gwsmeriaid sy'n dymuno cael angorfa yn yr harbwr neu gofrestru eu cychod dŵr ar gyfer y tymor sydd i ddod gwblhau'r broses ar-lein yn brydlon drwy wefan Cyngor Gwynedd, cyn gynted ag y bydd y ffioedd priodol wedi'u cadarnhau. Wedi hynny, dylai cwsmeriaid angorfeydd gysylltu â'r Harbwrfeistr i gadarnhau eu lleoliad angori yn yr harbwr.

2.2 Yn dilyn archwiliad o'r afon gan yr Harbwrfeistr a'i Gymhorthydd, bydd angorfeydd yr ymwelwyr a weithredir gan yr Awdurdod Harbwr wedi'u lleoli'n addas mewn dŵr dwfn cyn dechrau tymor prysur yr haf. Cwblheir y gwaith ar yr angorfeydd gan gontractwr angorfeydd a benodwyd yn lleol.

2.3 Mae'r Gwasanaeth yn edrych ymlaen yn obeithiol at gyfnod prysur yr haf eleni ac y bydd cwsmeriaid yr harbwr ac ymwelwyr yn mwynhau eu hamser yn amgylchedd yr harbwr.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1. Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn yr amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o randdeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Abermaw.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Mae'r Harbwrfeistr Mr Daniel Cartwright a'i gymhorthydd Mr Kane Triggs wedi ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw yn yr harbwr dros y gaeaf, yn ychwanegol i'r gwaith a wnaed i gefnogi staff harbyrau Aberdyfi a Phorthmadog.

4.2 Hysbysebwyd swydd barhaol newydd ar gyfer Swyddog Traeth i gynorthwyo Swyddogion yr Harbwr gyda gwaith ar y traethau lleol rhwng Abermaw ac Aberdyfi. Yn dilyn proses gyfweld, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus, Ms Nicola Salt, yn cychwyn gweithio gyda'r Gwasanaeth ar 1 Mawrth 2024. Yn ôl yr arfer, bydd Wardeiniaid Traeth tymhorol hefyd yn cael eu penodi i weithio ar y traeth yn Abermaw cyn dechrau cyfnod prysur yr haf.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Darperir crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter gan y Rheolwr Gwasanaeth Morol.

5.2 Yn ystod y gaeaf, roedd yn angenrheidiol ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn;

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
- Cynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2024/25.**

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Abermaw, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2024/25, fel ag o'r blaen, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant ar y pryd. Fodd bynnag, hyd yma, ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Abermaw yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a Mawrth 2024, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad ynghlwm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **19 Mawrth 2024** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **Harbwrfeistr Abermaw** |

**H1 Materion Mordwyo**

1.1 Yn ystod y gaeaf, mae staff yr harbwr wedi parhau i fonitro cwrs y sianel fordwyo i'r harbwr. Yn dilyn ail-leoli cymhorthion mordwyo llaw Port a Starboard yn y fynedfa i'r môr o'r sianel llynedd, mae cwrs y sianel fordwyo wedi aros yn eithaf cyson.

1.2 Bydd Staff yr Harbwr yn parhau i fonitro symudiad y banciau tywod yn y sianel fordwyo gan wneud newidiadau angenrheidiol i'r cymhorthion mordwyo, i ddarparu'r llwybr mwyaf diogel i mewn ac allan o'r harbwr. Gyda chynnydd o 7% yng nghwsmeriaid yr harbwr y tymor diwethaf, mae'r Gwasanaeth yn obeithiol y bydd y tymor sydd i ddod hefyd yn brysur.

1.3 Ar hyn o bryd, mae dau Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym:

1.3.1 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif:6/23: Mae'r Hysbysiad gwybodaeth hwn wedi bod yn weithredol ers 4 Medi 2023. Cyhoeddwyd i gynghori morwyr o'r gwaith adnewyddu parhaus i'r bont reilffordd hanesyddol sy'n ymestyn o'r harbwr. Bydd yr hysbysiad yn parhau mewn grym nes i'r gwaith gael ei gwblhau ac i'r sgaffaldiau strwythurol sydd eisoes yn bodoli o amgylch pileri'r bont gael eu tynnu.

1.3.2 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif:1/24: Ar hyn bryd, nid oes golau ar ochr Starboard Rhif 1 y cymhorthydd mordwyo llaw yn safle 52°42.739N 004°04.373W. Bydd y gwaith o atgyweirio'r golau yn digwydd cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, yn dibynnu ar amodau’r tywydd a llanw addas.

1.4 Nes i'r holl waith ac offer sy'n ymwneud ag adnewyddu traphont y rheilffordd ar hyd yr harbwr gael ei dynnu a'i gwblhau'n derfynol, dymuna'r gwasanaeth atgoffa morwyr o'r angen i gysylltu â swyddfa'r Harbwr cyn cychwyn taith dan y bont, fel bod modd sicrhau taith ddiogel.

1.5 Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa morwyr o'r angen i gysylltu â swyddfa'r harbwr cyn gadael neu gyrraedd yr harbwr, i dderbyn y wybodaeth fordwyo a thywydd diweddaraf.

**H2 Materion Gweithredol**

2.1 Ar hyn o bryd, mae cwch patrol 'Powercat' yr harbwr yn derbyn gwaith cynnal a chadw i baratoi ar gyfer y tymor a ddaw. Fel rhan o reoliadau codio cychod Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, bydd angen i'r cwch dderbyn archwiliad gan Syrfëwr Morol cymeradwy ddiwedd Chwefror, a bydd injan y gwch yn cael ei atgyweirio gan beiriannydd morol lleol ar ôl hynny. Bydd y cwch yn dychwelyd i wneud dyletswyddau gweithredol ar ôl hynny.

2.2 Mae'r ôl-gerbydau a ddefnyddiwyd gan yr harbwr ar gyfer cludo cwch patrol yr harbwr a defnydd cyffredinol wedi derbyn eu harchwiliad gwasanaeth. Yn anffodus, does dim modd i ôl-gerbyd llai a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith oddi ar y ffordd gael ei drwsio'n economaidd ac mae bellach wedi cael ei ddadgomisiynu.

2.3 Ar ôl cael ei ddefnyddio am nifer o flynyddoedd, roedd yn angenrheidiol newid yr offer VHF yn swyddfa'r harbwr gan fod ansawdd derbyn negeseuon a chyfathrebiadau yn wael. Yn dilyn y diweddariad llynedd, mae angen erial VHF i ychwanegu at yr offer newydd.

2.4 Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i osodiad mewnol swyddfa'r harbwr i roi lle i'r Swyddog Traeth sydd newydd ei benodi. Er bod y Swyddog wedi'i leoli yn Abermaw, bydd yn gweithio ar hyd yr arfordir rhwng Abermaw ac Aberdyfi.

**H3 Cynnal a chadw**

3.1 Mae angen rhoi gwasanaeth i'r bwi llaw starboard Rhif 1 a'r bwi llaw port Rhif 8 cyn i dymor prysur yr haf gychwyn, fel rhan o raglen dreigl cynnal a chadw bwiau y sianel. Cwblheir y gwaith gan gontractwr angorfeydd lleol, fydd yn cynnal yr angorfeydd ymwelwyr a weithredir gan y Gwasanaeth ar yr un pryd.

3.2 Mae staff yr harbwr yn parhau i rifo angorfeydd cychod yn yr harbwr er hwylustod cyfeirio. Mae staff yn parhau i fod wedi ymrwymo i symud unrhyw angorfeydd adfeiliedig neu segur o ddŵr yr harbwr.

3.3 Yn ystod y gaeaf, cafodd rhannau o bontŵn yr harbwr eu tynnu o'r dŵr ar gyfer cynnal a chadw. Trefnir bod y gwaith cynnal a chadw yn cael ei gwblhau cyn mis Mai, ar ôl i'r pontŵn gael ei ail-osod a'i roi yn ôl yn y dŵr. Dymuna'r Gwasanaeth ddiolch i Aelodau o'r Cyngor Tref am eu cyfraniad at waith cynnal a chadw'r strwythur a'i fodolaeth yn yr harbwr.

3.4 Yn ystod misoedd y gaeaf, mae staff yr harbwr wedi ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw i strwythurau o amgylch eu hamgylchedd gwaith. Roedd hyn yn cynnwys gwaith a wnaed ar du blaen yr harbwr yn Abermaw ac yn Y Friog, lle'r ymgymerwyd â'r gwaith oedd angen ei wneud ar bolion fflagiau a meinciau.

**H4. Materion Eraill:**

4.1 **Diogelwch yr Harbwr:** Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn system Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) sydd wedi'i osod o amgylch yr harbwr yn ddiweddar. Mae'r system ar wahân i CCTV y dref. Yn ogystal â gwella diogelwch yr harbwr, bydd y system yn darparu staff gyda throsolwg gweledol o weithgareddau'r harbwr pan fo dyletswyddau'r swyddfa yn atal staff rhag patrolio y tu allan.

4.2 **Lloc y Pysgotwyr:** Gyda chymorth deiliaid y lloc, mae staff yr Harbwr wedi parhau i dacluso a chlirio eitemau diangen a sbwriel o'r safle. Mae sawl llwyth o wastraff wedi mynd i'r safle gwaredu gwastraff lleol, gyda gwaith pellach i'w wneud i wella cyflwr yr ardal.

4.3 **Ffordd y Compownd:** Roedd cyflwyno bolardiau parcio newydd y tymor diwethaf ar Ffordd y Compownd yn llwyddiannus i ddarparu ardal i weithredwyr masnachol ar y dŵr barcio rhwng Ebrill a Hydref pan fo'r lle parcio o amgylch yr harbwr yn brin.

4.3.1 Roedd rhaid tynnu'r rhwystr ger mynediad Ffordd y Compownd gan nad oedd modd ei drwsio'n economaidd. I wella diogelwch ac atal parcio di-drefn ar hyd y ffordd sy'n arwain at loc y pysgotwyr, mae'r Gwasanaeth yn y broses o osod rhwystr trydan ar hyn o bryd lle bydd angen ffob i gael mynediad.

4.3.2 Gyda'r ddarpariaeth mannau parcio wedi'u nodi ar Ffordd y Compownd a gwell diogelwch gan rwystr newydd, mae wedi bod yn angenrheidiol codi ffi i barcio cerbydau yn yr ardal honno ar gyfer y tymor hwn ymlaen.

4.4 **Y Friog:** Mae staff yr Harbwr wedi gosod bolardiau ar frig y ramp mynediad i gerddwyr i'r traeth, i osgoi mynediad mewn cerbyd. Mae'r ramp i gynorthwyo mynediad dros yr arglawdd graean i'r rhan isaf o'r traeth wedi derbyn adborth ffafriol iawn gan y gymdeithas leol, ac mae gobaith y bydd trefniadau tebyg mewn lle ar gyfer y tymor sydd i ddod.

## H5 Digwyddiadau

4.1 Mae'r Gwasanaeth wedi derbyn hysbysiadau o flaen llaw o nifer o ddigwyddiadau arfaethedig a gynhelir yn Abermaw eleni. Mae'r rhain yn cynnwys;


- Carnifal Abermaw
- Gŵyl Fwyd
- Gŵyl Farcud
- Digwyddiadau rhedeg
- Ras Hwylio y Tri Chopa (Gorffennaf)
- Digwyddiad Motorcross
- Digwyddiad Nofio Hwrli Bwrli

4.2 Dymuna'r Gwasanaeth hysbysu trefnwyr digwyddiadau arfaethedig o'r angen i roi gwybod ymlaen llaw ynghyd â'r holl waith papur perthnasol i swyddfa'r harbwr. Diben hyn yw sicrhau bod modd asesu'r holl brotocolau diogelwch, trefniadau staffio a phrosesau gweinyddol. Ni chaniateir cynnal digwyddiadau oni bai bod caniatâd ysgrifenedig y Gwasanaeth wedi'i dderbyn.

| HARBWR ABERMAW | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 - Adolygiad Tachwedd 2023 | | |
|---|---|---|---|
| GRWP | CYLLIDEB 1/4/23 at 31/3/24 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/23 at 31/3/24 | GOR (TAN) |
| Gweithwyr | 70,420 | 74,064 | 3,644 |
| Eiddo | 12,280 | 15,090 | 2,810 |
| Trafnidiaeth | 1,010 | 523 | (487) |
| Gwasanaethau a Cyflenwadau | 10,920 | 22,792 | 11,872 |
| Gwariant Un Tro - Ariannu o Cronfeydd yr Adran | 0 | 36,500 | 36,500 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **94,630** | 148,969 | 54,339 |
| Incwm | (38,550) | (48,195) | (9,645) |
| Cyfraniad o Cronfeydd | 0 | (36,500) | (36,500) |
| **Cyfanswm Net** | **56,080** | **64,274** | **8,194** |

# BARMOUTH HARBOUR / HARBWR ABERMAW

# JANUARY / IONAWR 2024




| | | | |
|---|---|---|---|
| Fairway buoy | 52°42.796N | 004°04.906W | LFl.10 sec |
| No.1 Starboard Buoy | 52°42.739N | 004°04.373W | Qk Fl G |
| No.2 Port Buoy | 52°42.809N | 004°04.214W | Fl R. 2 sec |
| No.4 Port Buoy | 52°42.733N | 004°04.103W | 2L Fl R.7 sec |
| No.6 Port Buoy | 52°42.732N | 004°03.946W | Qk Fl R |
| No.8 Port Buoy | 52°42.767N | 004°03.760W | Fl(3) R 10 sec |
| South Cardinal Perch | 52°42.822N | 004°03.720W | Q(6)+Lf(1).15 sec |
| No.10 Port Buoy | 52°42.908N | 004°03.308W | L Fl R (4) 15sec |
| Breakwater Port | 52°42.989N | 004°03.127W | Fl R(5) 5s |
| No.3 Starboard Inner mark | 52°43.013N | 004°03.082W | Fl G 1.5 sec |

This illustration is intended as a guide only and not to be used for navigation. All positions are given as approximate. The Aids to Navigation may be moved without prior notice. Mariners are advised to contact the Harbour Masters Office for the latest navigational information.

Tel: 01341 280 671 / 07795012747

Email: danielarthurcartwright@gwynedd.llyw.cymru